# CHWAREL LLANDDULAS, SIR CONWY, CYMRU

# ASESIAD ARCHEOLEGOL DESG

© AOC Archaeology 2023 www.aocarchaeology.com

## 1 CRYNODEB ANNHECHNEGOL

1.1 Mae AOC Archaeology Group wedi'i gomisiynu gan Axis, ar ran FCC Environment, i gynnal asesiad desg ac arolwg ar droed mewn perthynas â dyrannu tir yn Chwarel a Chyfleuster Rheoli Gwastraff Llanddulas yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy (CDLIN).

1.2 Gellir rhannu Chwarel Llanddulas a'r Cyfleuster Rheoli Gwastraff yn chwe ardal, gydag Ardaloedd 1-3 yn cael eu cynnig ar gyfer eu dyrannu. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys ynghylch y cynigion hyn, a phenderfynwyd bod angen strategaeth i asesu'r adnodd archeolegol yn Ardaloedd 1-3 ("y safle").

1.3 Mae'r ymweliad safle wedi cadarnhau bod yna olion adeileddol sy'n gysylltiedig ag odyn Hoffman ac, o bosibl, ychydig o adeiladau chwarel o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ar y safle. Mae'r ymweliad safle a'r data LiDAR hefyd wedi cadarnhau bod yna olion cloddio sy'n gysylltiedig â'r odyn ogleddol yn ogystal â hen lwybr y seidin rheilffordd a'r dramffordd i'r dwyrain o'r hen odynau. Ystyrir ei bod hefyd yn debygol, er nad yw olion yr odyn galch fwyaf deheuol yn amlwg, bod yna olion cysylltiedig â'r ddwy odyn wedi goroesi ar y safle.

1.4 Yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod modern cafodd y safle ei ddefnyddio fel chwarel, ond bu newid mawr yng nghanol yr ugeinfed ganrif pan roddwyd y gorau i ddefnyddio'r odynau Hoffman a phan gliriwyd yr hen adeiladau

chwarel. Yn fuan ar ôl clirio'r safle mae'n debyg bod y system gludo wedi'i datblygu i gludo deunyddiau yn uniongyrchol o'r chwarel i'r jeti heb orfod defnyddio'r dramffordd. Mae llawer o'r adeileddau modern hyn, yn cynnwys y system gludo seilo i'r traeth, a'r adeiladau yn Ardal 2 a godwyd yn ddiweddarach yn yr ugeinfed ganrif, hefyd wedi'u dymchwel. Mae yna olion adeiladau a ystyrir i fod yn gysylltiedig â'r hen lwybr cludo i'w gweld o dan bontydd yr A55 a'r rheilffordd, ac olion waliau a chloddio yn Ardaloedd 1 a 2 sy'n perthyn i adeileddau o'r 1960au ymlaen.

1.5 Ystyrir olion yr hen odynau Hoffman yn fathau cenedlaethol prin o asedau ac fe ddylen nhw fod yn destun cofnodi pellach, ynghyd ag olion adeileddol eraill, ar ffurf arolwg adeiladau Lefel 3. Ni ystyrir bod yr olion modern mor bwysig â'r olion ôl-ganoloesol sydd ar y safle, ond mae'r rheiny sydd wedi goroesi yn Ardal 1 wedi'u codi ar neu'n agos iawn at olion adeileddau cynharach. Oherwydd hynny argymhellir y dylid eu cofnodi fel rhan o'r arolwg adeiladau Lefel 3 arfaethedig. Byddai'r arolwg pellach hwn yn cael budd o raglen clirio llystyfiant ymlaen llaw er mwyn darparu gwell mynediad i'r ardal na'r mynediad a oedd ar gael ar gyfer yr asesiad desg hwn. Nid yw'n debygol y bydd ar yr olion adeileddol a nodwyd yn Ardal 2 sy'n ymddangos fe petaent yn gysylltiedig â'r nodweddion sy'n weladwy ar fapiau Arolwg Ordnans y 1960au ymlaen, angen asesiad pellach.

1.6 Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys wedi nodi y byddai'r wybodaeth a geir wrth wneud asesiad adeiladau Lefel 3, ynghyd â'r hyn a amlinellir yn yr asesiad hwn, yn cael ei defnyddio i ofyn i Cadw asesu a ddylid rhestru olion yr odyn galch Hoffman yn rhai o bwys cenedlaethol.

1.7 Dylid ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys ynghylch datblygiad yr WSI ar gyfer yr arolygon adeiladau Lefel 3 arfaethedig ac ynghylch y strategaeth liniaru gyffredinol, os oes angen un, ar gyfer gweddill y safle. O ystyried yr aflonyddwch blaenorol yn yr ardal, ni ragwelir y bydd angen ymgymryd â rhagor o waith archeolegol.

1.8 Mae'r asesiad hwn hefyd wedi ystyried effaith datblygiadau pellach yn Ardaloedd 1-3 Chwarel Llanddulas a'r Cyfleuster Rheoli Gwastraff ("y

safle”) ar leoliadau asedau treftadaeth dynodedig agos (o fewn 1km). Oherwydd nad yw natur a graddfa cynigion datblygu yn y dyfodol yn hysbys, mae’r asesiad hwn wedi’i gyfyngu i nodi’r asedau dynodedig hynny y mae’r safle yn weladwy ohonynt, ac a ystyrir i fod â rhyw fath o sensitifrwydd i newidiadau o fewn eu lleoliad. Mae’r asesiad hwn wedi dod i’r casgliad nad oes asedau dynodedig agos y mae’r safle yn weladwy ohonynt, oherwydd topograffeg, datblygiadau a llystyfiant aeddfed rhyngddynt. Oherwydd hynny, ni ragwelir unrhyw effaith ar leoliadau, gyda’r cafeat nad yw union natur a graddfa datblygiad arfaethedig ar y safle yn hysbys.